**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Trefniadau Cofrestru i Bleidleisio ar gyfer perchnogion ail gartrefi a chartrefi gwyliau yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2020
Petitions Committee | 12 January 2020

**Cyfeirnod:** RS20/14837/5

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1081

**Teitl y ddeiseb**: Sicrhau bod perchnogion ail gartrefi a thai gwyliau ar rent yng Nghymru yn pleidleisio yn eu prif gyfeiriad yn unig, mewn etholiadau datganoledig a lleol.

**Geiriad y ddeiseb:** Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau nad oes gwiriadau systematig i ganfod a yw rhywun wedi pleidleisio ddwywaith. Nid ydym yn credu bod y ffaith bod twyll etholiadol yn anghyfreithlon ynddi'i hun yn ddull digonol o ddiogelu os na wneir gwiriadau systematig. Mae hyn yn debyg i gael cyfreithiau ynghylch goryrru ond heb gamerâu cyflymder yn cael eu gweithredu. Mae'r potensial difrifol o ran twyll ac effaith niweidiol hynny ar ein gwlad yn anferth a dylid cael trefn arno cyn etholiad 2021.

# 1. Cefndir: Cofrestru i bleidleisio yn y DU

Mae'r rheolau sy'n llywodraethu’r hawl i gofrestru i bleidleisio ym mhob rhan o'r DU wedi'u hamlinellu yn Adran 4 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (“Deddf 1983”).

I gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yn y DU, rhaid i berson fod yn 'preswylio' yn y cyfeiriad.

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn nodi bod rhywun fel arfer yn preswylio mewn cyfeiriad at ddibenion etholiadol os mai dyna yw ei gyfeiriad cartref parhaol. Mae hefyd yn cadarnhau bod gan y gair 'preswylio' ystyr benodol mewn cyfraith etholiadol ac nad yw'n gyfwerth â phreswylio at ddibenion eraill, megis treth incwm neu dreth gyngor.

Mae Adran 5 o Ddeddf 1983 yn nodi'r rheolau penodol i benderfynu a yw person yn preswylio mewn cyfeiriad (y “Rheolau Preswylio”).

Yng Nghymru, mae gan bob cyngor Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am greu a chynnal y gofrestr etholwyr. Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio'r Rheolau Preswylio i benderfynu a yw unigolyn yn gymwys i gofrestru i bleidleisio. Trafodir hyn ymhellach isod yng nghyd-destun penderfynu ynghylch ceisiadau i gofrestru i bleidleisio mewn ail gartrefi.

# 2. Cofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un cyfeiriad

Efallai y bydd gan rai etholwyr hawl i gofrestru i bleidleisio mewn mwy nag un cyfeiriad yn y DU.

Fodd bynnag, i wneud hyn, byddai angen i'r unigolyn fodloni'r Rheolau Preswylio (h.y. dangos eu bod yn 'preswylio') mewn mwy nag un eiddo yn y DU. Er enghraifft, gallai myfyrwyr fod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn eu cyfeiriad cartref a’u cyfeiriad yn ystod y tymor.

Wrth ystyried ceisiadau, mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn nodi y byddai angen i berson allu dangos i ba raddau y mae'n preswylio yn y ddau gyfeiriad yn barhaol.  Mae hefyd yn nodi bod yn rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried pob achos yn unigol, ac yn nodi'r rheolau a ganlyn:

- gall person fod â mwy nag un cartref, **ond nid yw perchen ar eiddo yn ddigonol i sefydlu bod rhywun yn preswylio mewn cyfeiriad – mae'n annhebygol y byddai bod yn berchen ar ail eiddo a ddefnyddir at ddibenion ymweliadau hamdden yn unig yn bodloni'r rheolau o ran preswylio;**
- **nid yw bod yn berchen ar eiddo ac yn talu treth gyngor arno yn ddigon i fodloni'r rheolau o ran preswylio**, gall hyn ddangos bod cysylltiad â chyfeiriad ond nid yw'n dystiolaeth o breswylio;
- bydd sut y defnyddir yr ail gartref yn effeithio ar p'un a ellir ystyried bod rhywun yn preswylio mewn cyfeiriad ai peidio;
- **nid yw presenoldeb dros dro mewn cyfeiriad yn golygu bod person yn preswylio yno**; ac
- nid yw absenoldeb dros dro yn amddifadu person o'i statws preswylio.

[Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwil.]

# 3. Gwirio a yw person wedi pleidleisio ddwywaith

Mae testun y ddeiseb yn nodi "*Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau nad oes gwiriadau systematig i ganfod a yw rhywun wedi pleidleisio ddwywaith.*"

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS:

> Er nad oes unrhyw wiriadau systematig, fel y dywedodd y Comisiwn Etholiadol, i sicrhau nad yw person yn pleidleisio ddwywaith yn yr un etholiad, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn digwydd fel mater o drefn, a phe bai'n hynny yn digwydd, gellid cymryd camau lle'r oedd trosedd etholiadol wedi'i chyflawni.

# 4. Ymateb y Comisiwn Etholiadol

Wrth ymateb i'r ddeiseb hon ar wefan North Wales Chronicle, a dywedodd llefarydd ar ran y Comisiwn Etholiadol:

> People who are registered at two addresses are entitled to vote in local government elections at each of those addresses, provided they are not in the same local government area.
>
> It is an offence under Section 61(2)(a) of the RPA 1983, for an elector to cast more than one vote on their own behalf in a UK Parliamentary general election or at a referendum. This offence carries a penalty of an unlimited fine in England and Wales, or a fine not exceeding £5,000 in Scotland.
>
> Finally, the UK has low levels of proven electoral fraud. However, in our report on the UK Parliamentary General Election in May 2017, we highlighted concerns raised at that election about double voting.
>
> We said that we wanted to work with the UK Government to explore possible mechanisms to reduce the risk of people voting in more than one constituency.
>
> We also said that the Government should consider other options for reducing this risk, such as requiring people who are lawfully registered to vote in local government elections for more than one local authority area to choose which of those addresses they will vote at for UK Parliamentary general elections.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.